Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

CO18273 Heol Waterloo - Croesfan Sebra Ddyrchafedig

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Medi 2021

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gyflwyno croesfan sebra ddyrchafedig a gyflwynwyd ar Heol Waterloo o amgylch ei chyffordd â Melrose Avenue yn Ward Pen-y-lan. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 18/06/2021 a 02/07/2021.

Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgynghoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cafwyd 16 o ymatebion unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymatebion hyn fel a ganlyn:

15: Cefnogaeth, a chefnogaeth gydag awgrymiadau ychwanegol

1: Aneglur; gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol

Sylwadau Cefnogol

Croesawodd nifer o drigolion y newidiadau arfaethedig, gan ddweud bod hwn yn lleoliad lle mae nifer uchel o gerddwyr a phlant ysgol yn croesi'r ffordd a bydd hyn yn creu lleoliad diogel i ddefnyddwyr groesi'r ffordd.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig.

Materion Penodol

Mae materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

Mater	**Ymateb**
Mynegwyd pryderon bod cerbydau'n parcio'n agos at gyffordd Melrose Avenue ar ddwy ochr Heol Waterloo ac mae hyn yn rhwystro gweledegdd o amgylch y gyffordd, felly dylid cyflwyno cyfyngiadau parcio o amgylch y cyffyrdd hyn.	Ar ôl gweithredu'r cynllun hwn, caiff gwaith monitro ei wneud i nodi a oes angen cyflwyno llinellau melyn dwbl wrth y cyffyrdd hyn. Os bydd angen llinellau melyn dwbl yna bydd angen proses ymgynghori ar wahân ar gyfer Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.
Cododd nifer o drigolion bryderon mewn perthynas â lled cyffordd Blenheim Road a gofynnodd a ellid addasu'r gyffordd i'w gwneud yn fwy diogel i gerddwyr.	Rydym yn deall eich pryderon a byddwn yn ychwanegu'r lleoliad hwn at ein cronfa data Ardal sy'n Peri Pryder. Caiff hyn ei adolygu a'i ystyried os bydd problemau diogelwch ar y ffyrdd yn codi gerllaw, neu y bydd cyllid amgen ar gael.
Ni allai un preswylydd nodi graddau'r marciau igam-ogam arfaethedig ar yr hysbysiad safle gwreiddiol yn glir.	Mae niferoedd tai ychwanegol bellach wedi'u hychwanegu at yr hysbysiad safle a ddylai helpu i nodi graddau'r marciau ffordd igam-ogam arfaethedig yn glir.

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD